Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: Dydd Iau 5 Mehefin 2008

Teitl: Dangosyddion Perfformiad 2006/07

Roedd ffigurau ledled y DU a gyhoeddwyd heddiw'n dangos bod sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi parhau â'u llwyddiannau wrth recriwtio myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir.

Mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2006/07, yn dangos cyflawniadau sector Addysg Uwch (AU) Cymru wrth ledaenu cyfranogaeth mewn AU.

Roedd prifysgolion a cholegau Cymru'n parhau i recriwtio cyfrannau uwch o fyfyrwyr israddedig amser llawn, ifanc o ysgolion y wladwriaeth, grwpiau economaidd-gymdeithasol is a chymdogaethau gyda chyfranogaeth isel mewn AU o gymharu â'r DU yn gyfan gwbl.

Cyfran yr israddedigion rhan amser newydd, heb ddim profiad blaenorol o AU ac a oedd yn dod o gymdogaeth cyfranogaeth isel oedd yr uchaf yn y DU.

Cyflawniad mawr yw bod cyfran y myfyrwyr israddedig amser llawn mewn sefydliadau yng Nghymru sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA) yn parhau i godi ac yn aros yn uwch na chanran y DU yn gyfan gwbl.

Y prif ganlyniadau ar gyfer Cymru yn 2006/07 oedd:

• Roedd 93% o israddedigion amser llawn, ifanc, newydd i sefydliadau addysg uwch (SAUau) Cymru yn 2006/07 yn dod o ysgolion neu golegau o'r wladwriaeth, o gymharu ag 88% ar gyfer y DU yn gyfan gwbl.

• Roedd 10% o israddedigion amser llawn, ifanc, newydd i SAUau Cymru yn dod o gymdogaethau cyfranogaeth isel, o gymharu â 9% ar gyfer y DU yn gyfan gwbl.

• Cododd cyfran yr israddedigion amser llawn, newydd i SAUau Cymru o'r pedwar grŵp economaidd-gymdeithasol isaf ac mae ychydig yn uwch na chyfran y DU yn gyfan gwbl.

• Ar 7.9%, mae gan Gymru'r gyfran uchaf yn y DU o israddedigion rhan amser, newydd heb ddim profiad blaenorol o AU ac o gymdogaeth cyfranogaeth isel.

• Roedd cyfran y myfyrwyr israddedig amser llawn yn SAUau Cymru sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA) yn parhau i godi, gyda 5.4% yn derbyn LMA yn 2006/07. Hefyd roedd hyn yn parhau i fod yn uwch na chyfran y DU yn gyfan gwbl.

• Roedd 12% o israddedigion amser llawn, aeddfed, newydd yng Nghymru a oedd heb brofiad blaenorol o AU ac a oedd yn dod o gymdogaeth cyfranogaeth isel, o gymharu ag 11% ar gyfer y DU yn gyfan gwbl.

• Mae cyfran y myfyrwyr gradd gyntaf, amser llawn, newydd i SAUau Cymru nad ydynt yn parhau ar ôl eu blwyddyn gyntaf wedi cwympo o 10.3% yn 2005/06 i 9.5% yn 2006/2007, er ei bod yn parhau i fod yn uwch na'r cyfran ar gyfer y DU.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru:

“Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys newyddion gwych i Gymru. Maen nhw’n cadarnhau ymroddiad ein prifysgolion a’n colegau i gynnig cyfleoedd i bawb sydd â’r gallu i elwa ar addysg uwch. Mae’r profiad addysg uwch yn hynod werthfawr ac mae ein sefydliadau’n gweithio’n galed gydag ysgolion a cholegau i ledaenu’r neges hon trwy’r cymunedau yng Nghymru trwy ein menter Ymgyrraedd yn Ehangach, sydd ynghylch codi dyheadau ymysg myfyrwyr ifanc a myfyrwyr aeddfed fel ei gilydd. Mae’r twf yn nifer y myfyrwyr sy’n derbyn LMA yng Nghymru hefyd i’w groesawu.”

Er ein bod yn croesawu’r cwymp yng nghyfran y myfyrwyr amser llawn nad ydynt yn parhau ar ôl eu blwyddyn gyntaf, rydyn ni’n cydnabod ei bod hi’n dal i fod yn rhy uchel. Rydyn ni wedi cyflwyno premiwm ychwanegol yn ein cyllid i gefnogi perfformiad lledaenu mynediad a’i wella ymhellach, trwy gynnwys cefnogaeth i fyfyrwyr anodd eu cadw, ac rydyn ni’n gweithio gyda’r sector ar ddatblygu strategaeth i wella cadw.

Diwedd

Nodiadau:

Cysylltiadau ar gyfer mwy o wybodaeth

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk
Hannah Falvey, Uwch-reolwr ar gyfer Ystadegau a Chyllid, 029 2068 2240
hannah.falvey@hefcw.ac.uk

Dangosyddion Perfformiad

Ceir testun a thablau llawn ar Ddangosyddion Perfformiad Addysg Uwch yn y DU 2006/07 ar wefan HESA ar www.hesa.ac.uk/pi.

Cyhoeddir y Dangosyddion Perfformiad gan Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar ran pedwar corff cyllido addysg uwch y DU (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Cyngor

Cyllido'r Alban (SFC), ac yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran dros Gyflogaeth a Dysgu (DEL).

Mae'r dangosydd cod post, sy'n dangos cyfran y myfyrwyr sydd o gymdogaethau cyfranogaeth isel wedi cael ei newid eleni ac felly nid oes modd cymharu dangosyddion sy'n perthyn i'r cyfrannau hynny â blynyddoedd blaenorol.

Mae **Cyngor Cyllido Addysg Uwch** (CCAUC) yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, sy'n gyfrifol am weinyddu cronfeydd sy'n cael eu trefnu i fod ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er cefnogi:

- addysg yn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil yr ymgymerir â hi gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ychwanegol at ei gyfrifoldebau cyllid, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllid, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.